

Llên Natur

Bwletin 104 Hydref2016




gan gynnwys bwletin Cymdeithas Gwaith Maes, "Llygad y Dydd"



Copor bach, gwarchodfa natur Glascoed, Llanelwy. Awst 5ed. Alun Williams

COPOR BACH: dwy genhedlaeth (2008-2016 ac un yn unig o 1995)



Pob blwyddyn ceir dwy genhedlaeth y **copor bach** - un â'i benllanw ym mis Mai a'r llall yn crynhoi'n raddol dros yr haf (wrth i'r gyntaf ddarfod) i uchafbwnnt ym mis Medi. Sail y graff yw'r cofnodion dyddiedig yn y Tywyddiadur a'r Oriol. Copryn o'r ail genhedlaeth yw llun Alun (fel mae'r hadau pluog yn awgrymu).

Eryri John Brett 1885



Paentiwyd y tirlun uchod gan John Brett ym 1885 ac fe dynnwyd llun ohono â chamera yn ddiweddar, gyda chaniatâd, yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Mae'r tirlun yn ymddangos yn driw iawn i'r hyn oedd o flaen yr artist ar y pryd mewn oes cyn i gamerâu ddod yn bethau cyffredin. Mae'r llun yn dangos dyffryn Gwyrfaei, Y Wyddfa, Moel Eilio, yr Aran a Mynyddfor, gyda chaeau ardal Brynsiencyn, Môn yn y blaendir. A'i gymeryd fel cofnod cywir o le a dyddiad arbennig, mae'r cynhaeaf gwair yn dod i ben (mae dwy res o deisi gwair ar ôl yn y cae ar y chwith a throl lawn ar gychwyn am y ty gwair) Mae'r cysgodion draw yng Nghwm Bychan (Mynyddfor) yn datgan mai diwedd diwrnod hir o waith sydd yma. Mis Gorffennaf yw mis y gwair fel arfer ac mae'n debyg y paentiwyd y llun cyn y glaw mawr i ddod.



Anodd ydi cael y tywydd, y tymor a'r amodau iawn (hwyr brynawn o haf braf. Sialens i ail dynnu'r llun!

Cyfflog cynta'r gaeaf

Ymwelydd gaeaf o ogledd Ewrop yn unig yw'r **cyfflog** erbyn hyn (amser a fu iddo nythu dros Brydain gyfan mewn ardaloedd addas). Fel arfer mae'n ein cyrraedd ddiwedd mis hydref ond dyma ddywed Munro Edwards yn ei ddyddiadur hela yn 1886:

7 Hydref 1886...walked over the mountain to the Mawddach ... and to our surprise found the river full. I began fishing Gethigemlyn [sic] The Minor [brawd ieuengaf Munro] flushed a woodcock today, which is the earliest instance I have heard of in this country. Caught two small sewin

Dyddiadur "Sporting Diary" CEM Edwards Dolserau

Nodwch eich cyfflog cyntaf y mis hwn i weld os bu i'w batrwm newid ers oes Munro Edwards.

Y Sgrifen ar y Wal

Drannoeth y Brecksit




Trwy gwrteisi cylchgrawn Barn

Dre bler co!



Emrys Jones

Cofeb ar silff fenest cwt ar lan Llynnau Gamallt.



Bu farw W. G. Casson ar ôl bod yn pysgota ger Llynnau Gamallt, ym 1889.

Gwyn Williams

O adroddiad papur newydd. Allan o erthygl 'Sgotwrs Stiniog' gan y diweddar Emrys Evans. "Yr oedd rhyw apêl arbennig mewn mynd "dros y nos i'r Gamallt..."

Cyhoeddir Bwletin Llên Natur gan Gymdeithas Edward Llwyd

(Rhif Elusen: 1126027)

Mae Prosiect Llên Natur ar Facebook a Twitter. Cysylltwch â ni trwy llennatur@yahoo.com.

Pry' cop Dafydd



Pry copyn yn y genws *Amaurobius*, yn y ty yn Llanaelhaern ym mis Gorffennaf [2016]. Meddai'r arbenigwr Richard Gallon: *Yes, definitely an Amaurobius species. We have three species in Britain: A. ferox which is black with grey markings on the abdomen & A. similis and A. fenestralis which are more banded on the legs. A.*

similis is strongly associated with human habitation, so I guess it'll be that one (fenestralis tends to be a bit more reddish on the abdomen and is a woodland species). Richard Gallon

...a carw'r gwellt

Phalangium opilio

Nid pryf cop (sydd yn y Drefn

Araneae) ond

'carw'r gwellt'

(Saesneg:

harvestman) - yn y

Drefn *Opiliones* - ar

wal toilet yn Nant

Gwrtheyrn ym mis

Gorffennaf eleni.

Yes it's a female

Phalangium opilio – not

really a typical site for it though. It's a species more typical of open ground (sand dunes etc.)



Richard Gallon



Gwelwyd hwn ar wal tŷ yn Llanaelhaearn ynghanol mis Gorffennaf eleni.

Dywed RG: *this one is definitely Dicranopalpus ramosus. It's a Moroccan/Mediterranean species which spread up through Europe in the last several decades. The tuning fork shaped palps at the front are characteristic of this species...*

Marciau llawn Dafydd!

....There are several harvestmen species which are on the march across Europe – possibly aided by rapid human movement of potted plants. There's even a huge, 10cm leg-span, species which has gained a foothold in UK. Nobody knows where this originated from and it's not even scientifically described!

RG

Cynrhon mwyar duon - eto



Gofynnodd Gwyn Edwards ym **Mwletin 80** (tud.2) pam nad oedd wedi gweld cynrhon yn y mwyar duon "Eleni [2014] mae'r cnwd wedi bod

yn drwm iawn ond sylweddolais nad oedd cynrhon ar unrhyw un o'r mwyar" Gofynnodd: "Oes yna rywun yn gwybod beth sydd wedi digwydd i'r cynrhon eleni?"


Gwyn Edwards

Fel heliwr mwyar fy hun (DB) gallaf gadarnhau eleni (2016) na fu'r un cynrhonyn pry ffrwythau ar gyfyl mwyar duon Waunfawr - a minnau fel Gwyn yn hen gyfarwydd a nhw ers stalwm. Mae Twm Elias yn ddigon 'smala serch hynny; dyma ddywedodd:

Hogia bach, y rheswm nad oes cynrhon ar y mwyar duon ar hyn o bryd [canol Awst] ydi ei bod hi'n rhy gynnar yn y tymor. Chlywsioch chi ddim am yr hen goel am W^yl Fihangel, neu Gwlihengal i bobl Mo^n? Erbyn hynny, Medi 29ain / Hydref y 10fed (dibynnu ar pa galendr – yr hen neu'r newydd) y bydd cynrhon yn y mwyar duon.

Wel, dwi'n dal (15 Medi) i hel y mwyar, a dal dim cynrhon. I ddweud y gwir fydd y mwyar yn ddigon o slwtsh erbyn

DYDDIADAU CASGLU MWYAR DUON
yn ôl cofnodion dyddiaduron 1873-2016



Gwyl Fihangel ddywedwn i

Ydi hi'n bosibl bod y tymor mwyar duon yn mynd yn gynharach a phatrwm cenhedlu'r pryfed ffrwythau wedi ei ddrysau? Dyma (uchod) gofnodion pobl yn hel mwyar duon yng Nghymru (a rhai o Loegr) o'r Tywyddiadur ers 1873. Mae'r graff yn awgrymu (dim ond awgrymu cofiwch) bod y dyddiad cyfartalog hel mwyar duon wedi dod ymlaen 18 diwrnod dros y ganrif a hanner a aeth heibio. Ydi patrwm bywyd y pry a'r mwyar bellach "allan o sync? Wel be ydych chi'n gynnig fel esboniad?

Gol.

Cofiwch glicio ar y dolenni coch i gael mwy o wybodaeth

Hydref eto.... !

Y Cynhaeaf



Combeinio haidd yng nghae yr Eglwys, Llanfaglan 15 Awst 2016. Amgylchiadau eleni, gwllith yn y nos yn amharu yn ôl y ffarmwr. Ifor Williams

Ym **Mwletin 103** cawsom hanes naturioldeb y cae hwn flynyddoedd yn ôl a'r gloynnod byw welwyd yno, ac yn yr un rhifyn (tudalen 3) cawsom hanes am fel mae coesau amrywiadau newydd y prif gnydau yd (haidd, gwenith a cheirch) wedi cael eu bridio yn fyrrach (uwchder penglin yn yr achos yma) o'i gymharu â stalwm.

Dyma Twm Elias ar y coesau hirion:

Roedd coesyn hir yn ddefnyddiol ar gyfer toi teisi yn y gadlas. Ar un adeg byddai rhai yn ffustio cyfran o'r ceirch yn hytrach na'i fwydo i geubal y dyrnwr mawr i gael gwellt toi. Y rheswm am hynny oedd y byddai'r gwellt yn aros yn gyfa (heb ei blygu) wrth ffustio yn hytrach na'i sgrwnshio'n bob siap gan y dyrnwr. Roedd angen gwellt syth ar gyfer y toi. Ond byddai y rhan fwyaf yn gweld hyn yn drafferth ac yn rhoi sachau wedi eu pwyso neu darpwlin dros y das.

Ar un adeg mi fydda lot mwy o ddefnydd i'r gwellt (gwellt ceirch yn arbennig) a byddai'n cael ei dorri neu ei tshaffio i'w fwydo i anifeiliaid yn y beudai dros y gaeaf, wedi ei gymysgu efo torrion maip neu swêj. Pan ddaeth y combein i'w fri yn y 1950au / 60au mi ddaeth tyfu haidd ar raddfa fawr yn gyffredin a datblygwyd mathau newydd o ydau oedd yn fyrrach eu coesau - fyddai ddim yn cael ei chwythu lawr mor hawdd gan stormydd. O ganlyniad roedd gormodedd o wellt ac arferid ei losgi yn rhesi y caeau ar o' combeinio. 'Dydy hwn ddim cystal i'w fwydo (mae'n dibynnu ar ei ansawdd) a gwerthir rhywfaint ohono i ffermwyr, y rhan fwy i'w roi dan draed yr anifeiliaid mewn siediau dros y gaeaf. Mi weli'r loris efo byrnau anferth sgwar yn dwad a fo ddechrau'r gaeaf.

Twm Elias


Llinosiaid ac ysgall



Ceiliog gyda'r coch ar ei frest yn bwydo ar hadau asgell, Pentrefoelas, Awst 15. Alun Williams

Mae yna 172 o gofnodion difa ysgall gan ffermwyr yn Y Tywyddiadur Dyma'u crynhoi fesul mis gan wahanuy rhai syn cyfeirio ar "torri" a'r rhai sy'n cyfeirio at "chwynu" a "tynnu"

DIFA YSGALL AR FFERMYDD CYMRU 1887-2012



Mae'r graff yn dangos tri pheth:

- 1) bu'r **torri** mwyaf ar ysgall yn digwydd ym mis Gorffennaf (cyn iddyn nhw hadu?).
- 2) ym mis Mehafin bu'r gwaith **codi** ysgall (tynnu/chwynu) yn digwydd (" Chwynu asgell yn yr yd", Llansilyn).
- 3) Roedd llawer mwy o dorri yn digwydd nag o godi.

Mae'r term am YSGALL yn amrywio o ardal yn y cofnodion: ASGELL: Llansilyn (74), Bodorgan (5), Cerrigydrudion (3), Padog (2); ASGALL: Bodorgan (49); YSGALL: Bodorgan (13 cofnod), Aberdaron (10), Esgairdawe (2), Tywyn, Meir. (1), Bwlchtocyn (1); ; ESGYLL: Tywyn, Meir. (2). Nodwyd ambell beth dadlennol am y broses o ddifa ysgall:

7 Medi 1960: "Yr ysgrifen yn wael heddiw oherwydd ysgall yn y dwylo" (Dyddiadur Defi Lango, Esgairdawe). Oedd Defi yn eu tynnu a'u codi â'i ddwylo heb fenyg?!


15 Hydref 1992: "Tynu injan torri asgall oddi ar y fergi bach". (Dyddiadur Gareth Rowlands, Bodorgan).... am flwyddyn arall!

Mae yna gnwd o'r enw **YSGELLOG** (*chicory*) hefyd (**Bwletin 92**, tud 4). Ni chafwyd tystiolaeth eto o hwn yn hanesyddol yng Nghymru (?), ond dyma gofnod o Norfolk gan **H Rider-Haggard**, **dyddiedig 29 Awst 1898**. "

Buarthau'r Carneddi

Ydych chi wedi dyfalu erioed pwrpas y corlannau, unigryw efallai, isod sydd i'w gweld ar fynyddoedd y Carneddau. Wel dyma esboniad, trwy lygaid un oedd yn gartrefol ymhlith y rhai a fu'n eu defnyddio.

I'r Mynydd. gan Syr Ifor Williams (tua 1900)



Wrth edrych yn ôl, mi gofiau yn fyw iawn am y tro y dringais Garnedd Llywelyn yn y nos. Fel hyn y bu os oes gennych chi amynedd i wrando. Clywed wnes i fod y bugeiliaid yn arfer hel y defaid i'w cneifio fesul mynydd, mewn trefn oedd yn draddodiad cenedlaethau, ac y buasai'n werth i mi weld Helfa'r Braich—dyna'r enw ar yr helfa fawr oedd yn rhwydo holl ddefaid Carnedd Llywelyn mewn un noson. Daeth yr amser nodedig; ces air fod y bugeiliaid yn cychwyn am hanner nos, nos Sul, ac i fwrdd a mi i Gilfodan, ffarm Richard Griffith, ewythr i mi, yng nghwrr y Carneddi, Bethesda. Cyrraedd yno'n brydlon, a chael croeso mawr gan Modryb Elin. Pryd o fwyd, ac yna disgwyl i'r cloc daro deuddeg. Bugail neu ddau yn troi i mewn, pob un a'i ffon, a'i gi. Fewyrth yn hwylio i gychwyn; yr oedd ei gi yn barod ers meityn. Ces innau fenthyg ffon. Trawodd y cloc y rhif iawn, ac ymaith a ni yn orymdaith fach ddistaw, a gadael y tai a'r strydoedd am y mynydd, a'i dwllwch, a chael pen y llwybr heibio'r Garth. Cerddem fel Indiaid Cochion y naill ar ôl y llall. Dyn mawr, tew, cestog oedd Richard Griffith, a cherddwn y tu ôl iddo, gan deimlo fel Goronwy Owen ar ôl y Person Mawr mewn amgylchiad go debyg, "fel bad ar ôl llong." Bob hyn a hyn ymunai bugeiliaid eraill â ni, gan gymryd eu lle yn ddistaw yn y gynffon, pawb â'i gi, pawb â'i ffon. Tyfai'r orymdaith yn gyson.

Wedi i'm llygaid gynefino â'r twllwch, medrwn gadw fy lle yn y proseswn yn burion: dilyn y golofn o dduwch duach na'r nos a symudai'n bwyllog o'm blaen, sef F'ewyrth Cilfodan. Os oedd lle iddo fo, yr oedd lle mi—a sbâr. Erbyn hyn yr oeddem ar y mynydd agored, y Gurn Wiga ar y chwith, a ninnau yn anelu am lepan y Drosogl. Trois fy mhen yn ôl a gwelwn yno erbyn hyn lawer mwy o fugeiliaid a chwn oedd wedi ymuno ni. Nid oedd neb yn siarad, ac nid oedd neb yn cyfarch y newydd ddyfodiaid—dim ond dal i gerdded ymlaen. Yna gwelsom fflagl o dân ar y mynydd ymhell ar y chwith i gyfeiriad Llanllechid, ac meddai un o'r cwmni, "Hogia Bryn Eithin sy'n deud eu bod yn dŵad." Ymhen hir a hwyr gwelem ddau ddyd yn eistedd uwchlaw'r llwybr yn ein disgwyl ni, wedi croesi Waun Cws Mai a thorri i'n cyfarfod. "Ewch chi hefo mab Bryn Eithin," meddai F'ewyrth, "Mae o'n mynd ymhellach na neb, i warr y mynydd, yn union y tu ôl i ben Carnedd Llywelyn. Mi ydwi'n troi rwan i'r lle 'r ydwi i fod." Ac aeth. Edrychais yn f'ôl: yr oedd fy nghynffon wedi diflannu, pob bugail a'i gi wedi troi ymaith yn ei dro i gymryd ei le erbyn toriad y wawr. Gwyddai pob un b'le i fynd, a phryd i fynd. Ac erbyn toriad dydd byddai cylch o ddynion a chŵn o gwmpas y mynydd mawr—ochr Arllechwedd Uchaf iddo. Ar lasiad y dydd, cyn gynted ag y medrid gwahaniaethu rhwng defaid gwlanog, a defaid llymion—sef rhai eisoes wedi eu cneifio- yr oedd pawb i gerdded ar ei gyfer, hel y defaid gwlanog o'i flaen i gyfeiriad y buarthau neu'r corlannau ar lan yr Afon Wen, yng ngwaelod y Braich.

Ond fy ngwaith i oedd canlyn mab Bryn Eithin, a'i holi. Pwy oedd wedi trefnu iddo fynd i'r lle arbennig oedd iddo? Ni wyddai: dim ond hyn, fod bugail Bryn Eithin i fod yno ar doriad y wawr, fore Helfa'r Braich, yn ôl hen hen arfer. Chwaneg o ddringo, crafangio i fyny'r Foel Grach, ac i'r gefn o fynydd yn union y tu ôl i Garnedd Llywelyn. Aeth Evans yn ei flaen, a threis innau ar y dde yn syth i ben y Garnedd. Ac yno y bum yn disgwyl iddi ddyddio.

Torrodd y wawr, heb ddim anghyffredin y bore hwnnw, a disgyrnais i'r pigyn a elwir Yr Elan ar ysgwydd y Garnedd. Oddi yno rhedai esgair neu fraich i lawr i'r gwaelod, a chawn olwg iawn ar y ddwy ochr wrth ddisgyn yn araf deg i lawr ar hyd y trum. A dyna i chi olygfa. Ar bob ochr ymhell islaw i mi, gwelwn y llethrau yn fyw ddefaid mân yn llamu o flaen y cŵn ar draws i ddechrau ac yna at i lawr, i gyfeiriad y corlannau. Gwelwn ddynion, un yma, un acw, yn gylch llac am y mynydd, yn gyrru'r cŵn at ei gorchwyl. Unai y man yroedd o ddefaid yn finteioedd mwy a mwy, fel y caei'r rhwyd amdanynt. Erbyn i mi ddisgyn i ben y graig olaf ar y Braich, yr oedd yr holl finteioedd hyn wedi ymuno yn dyrfa anferth o dda gwlanog. Ni welais na chynt na chwedyn yn fy oes gymaint o ddefaid yn yr unlle. Faint oedd 'na? Dwn i ddim. Tair i bedair mil, meddai un o'r bugeiliaid. O'u cwmpas gwibiai degau o gŵn yn ddi-baid—yr oeddent fel bleiddiaid rheibus! Bob hyn a hyn torrai llwdn ifanc cryf o'r fintai, a'i chynig hi am y mynydd a rhyddid. Ar drawiad rhuthrai hanner dwsin gŵn am y cyntaf ar ei ôl, a chwarae brathu ei glustiau i ddysgu'r drefn iddo. Yr oedd y cŵn hyn yn llawn afiaith, ac fel petasent yn gorfoleddu cael tipyn o sbri fel hyn hefo'r wyn anhydryn.

Yn wir i chi, dyma rywbeth rhyfedd yn digwydd, a syfrdanodd bawb. Yn lle cynnig ffoi fesul un ac un, dyna'r holl gynulleidfa fawr anferth o ddefaid yn cymryd yn eu pennau yr ânt yn ôl gyd a'i gilydd. Fel petasai'r un syniad wedi gafael ymhob un ar unwaith, ei bod hi'n brafach lawer yn eu cynefin ar y mynydd nag yn destun hwyl i gŵn defaid yn y gwaelod. A dyna nhw'n cychwyn i fyny'r llethr yr oeddwn i newydd ddisgyn, ac ni fedrai neb na dim eu hatal. Rhedai'r bugeiliaid a'u dwylo fyny gan weiddi fel na fedr neb weiddi ond bugeiliaid. Rhuthrai'r cwn o'u cwmpas fel pethau gwallgo, ond yn hollol ofer. I fyny'r oedd y defaid am fynd, ac i fyny yr aethant er gwaethaf cŵn a dynion. Caasant am ambell fugail a'i droi'n ynys yn eu canol. Yr oeddwn i wedi rhedeg a gweiddi hynny fedrwn i, nes o'r diwedd fethu a gwneud y naill na'r llall, a gorwedd yn llonydd i gael fy ngwynt yn ol, gan rythu llygaid yn y cyfamser ar fuddugoliaeth y defaid.

Ond wele hen fugail yn cymryd y blaen. Gormod o ddefaid mewn un gyrr, meddai, gyrr rhy fawr o lawer. Rhaid torri'r dyrfa anferth yn fan yroedd, a'u cadw ar wahan. Rheddodd dynion a chŵn ac ymwthio yn amcanus i ganol y defaid, a thrwy ymdrech enbyd llwyddasant i wneud hynny: a ideuwyd a'r minteioedd llai yn ôl i gyfeiriad y drochfa, a'u cadw'n ddyfal ar wahan. Yr oedd yr helynt drosodd. Dechreuwyd golchi a chneifio'n ddiwyd a phrysur ar lan yr Afon Wen. Yr oedd gwaith caled undonog i ddegau o ddynion am oriau lawer, ac i ddweud y gwir, nid oeddwn i'n awyddus i aros rhagor yno i wyllo'r gwelleifau prysur. Sylweddolais fy mod wedi bwyta fy mrechdan olaf oriau'n ôl ar ben yr Elan, ac ymaith a mi tuag adre cyn gyflymed ag y medrai coesau blin fy nghludo.

Ysgrif o gyfrol Syr Ifor Williams 'Difyrru'r Amser' (1959)

Gwest - offeryn pysgota

14 Mehefin 1941: Dal tri brithyll yn yr afon hefo gwesti....

Dyddiadur DO Jones, Padog

Meddai Mary Williams (Golygydd Cynorthwyol Geiriadur Prifysgol Cymru): "Faint ohonoch chi bysgotwyr sy'n gyfarwydd â'r gair 'gwest'? Math o gelfi pysgota yw gwesti, ac mewn erthygl yn Cymru1 (cyf. xxii., 1902) mae Ellis Pierce (1841-1912) yn sôn am eu llunio â llaw adeg ei blentyndod. I ddechrau roedd angen rhawn, felly corlannwyd merlod mynydd er mwyn hel digon o rawn i'w blethu a'i gawio i ffurfio llinyn tua pedair llath o hyd. Clymwyd bachyn i'r pen a fyddai'n mynd i'r dŵr, ac i'r pen arall clymwyd llinyn cryf a elwid pacrud. Yn ei dro yr oedd hwn ynghlwm â pholyn byr a ddefnyddiwyd i stancio'r cyfan i lan yr afon neu'r llyn. Gosodwyd y gwesti ac arnynt abwyd o bry genwair dros nos, ac fe'u casglwyd yn y bore ynghyd ag unrhyw bysgod a ddaliwyd arnynt. Roedd modd lapio'r llinyn am y polyn a chysylltu'r bach iddo er mwyn gallu cario'r gwesti adre'n daclus mewn basged, yn barod erbyn y tro nesa! Ond peidiwch da chi â thrio hyn heno – mae'r *set-line* yn anghyfreithlon erbyn hyn!"

Edafeddog y môr yn Sir Fôn!

Glywsoch chi erioed am edafeddog y mor neu cotymlllys (*cottonweed Otanthus maritimus*)?. Heddiw, dim ond mewn un cornel fach o Swydd Wexford, Iwerddon y mae'n tyfu yn yr ynysoedd hyn yn ol Atlas y Fflora 2002. Ond nid felly y bu. Y mae cofnod ohono yn tyfu'n helaeth yn Ynys Môn tair canrif yn ôl.

Otanthus maritimus. Tywyn Maelog and Tywyn Trewan. *Brewers diary* (Hyde 1931, p. 26) shows this was found by him and Foulkes "for a mile together, great plenty" at Llanfaelog, accompanied by *Calystegia soldanella*, on 5 September 1727. *An Early Welsh Plant Collection at Cambridge*. DE Allen (Nature in Wales 1966:10(1))

Dyma fo (isod) yn tyfu yn ei unig gadarnle bellach yn Swydd Wecsford.



cottonweed *Otanthus maritimus* edafeddog y môr, Llyn Bonheddig, môr-edafeddog

Molwsg yn lladd trochydd

Cafodd un o'r golygyddion (DB) hyd i nodyn yn yr hen gylchgrawn Nature in Wales yn ddiweddar yn dyddio




o'i lencyndod yn 1978 (ac ar ôl cryn chwilio yn ei hen lyfrau maes, y llun yma ohono):

UNUSUAL DEATH OF BLACK-THROATED DIVER On 14 March 1978, near Mochras, Llanbedr, Gwynedd, a freshly dead adult Black-throated Diver *Gavia arctica* was found on the beach. The lower mandible was completely enclosed by the two halves of the large bivalve mollusc *Arctica islandica* which was still alive. The latter measured 8.9 cms. from the anterior to the posterior margin and 8.4 cms. from the umbo to the opposite margin. The *Handbook of the Birds of the Western Palearctic* (Cramp & Simmons 1977) states that molluscs are "sometimes taken in appreciable quantities, more especially during the breeding season" but sizes and species are not specified. It would appear, both from the morphology of the bill of the Black-throated Diver (being flattened dorso-ventrally), and from the circumstances of this bird's death, that a bivalve of this size is outside the normal range of prey for this species. One wonders if the bird was driven to such prey by some form of desperation. The contents of the gizzard were examined and found to contain stones (max. size 7 mm.) and a small amount of the unidentified calcareous remains of prey (max. particle size 1mm.). Both pre- and post-mortem digestion is likely to have taken place. DUNCAN J. BROWN

Dyma anfon yr hen sylw at yr Athro James Scourse o Adran Eigioneg Prifysgol Bangor sydd yn enwog am ei ddi-ddordeb mewn molwsgiaid môr yn gyffredinol ac *Arctica islandica* yn benodol. Dyma'i ymateb (gyda chaniatad yr Athro):

This is an extraordinary story!!! I've been trying to picture what happened. Did the live Arctica close its valves tightly around the lower mandible so from then on the bird was unable to feed? I guess it would be an instinctive reaction by the mollusc because if the mandible was invading the interior it would close up to protect itself, but in doing so clamped itself around the



beak and then held on! Amazing! I'm circulating this around our group!

James Scourse



dau aderyn môr arall.

Doedd y fath ddigwyddiad ddim yn hollol anhysbys i aelodau'r grwp. Dyma lun yn dangos rhywbeth tebyg mewn

Nadroedd defaid yn cymdeithasu



At about 9pm this evening [31 Mai 2016] I found some Slow-worms in the field at Tyddyn Crythor [Bodorgan]. I was never aware of any here before. I took this quick snap with the phone

Steve Roddick

O'r gorffennol:

Cwm Bychan, Harlech: JM Harrop discovered 12 slow worms under sheets of corrugated iron in a farm rubbish tip at SH622302 [heb fod ymhell o fferm Crafnant] up Cwm Bychan, east of Harlech, on 23 April 1978

Nature in Wales 1979:16(3)


Sglefren Harri Morgan yn Ninas Dinlle



'Lion's Mane Jellyfish'. Ai dyma beth ydi o? Dywedir fod ganddo bigiad annymunol.

Elen Huws

Rholdy?



Gofynnodd Wil Williams: " 'Rhyw syniad be di ystyr yr enw 'Rholdy' (sydd ar hen fapia), oedd yn agos i Pandy?" Er mai adfeilion

neu diflanedig ydir nodweddion ar y map erbyn hyn, Ffatri Wlan Niwbwrch sydd ar gof a lleferydd lleol bellach (gwnaethpwyd carthenni gwethchweil **Bwletin 101 tud 4**). Does dim cyfeiriad at y gair yng Ngeiriadur y Brifysgol, ond cafwyd cliw go bendant gan olygydd y Geiriadur Andrew Hawke, yn y gair *rholio*. Meddai'r Geiriadur:

(Ym)ffurfio'n rholyn neu'n belen, torchi, (ym)lapio; cardio (gwlan).

Fe aiff ymlaen gyda sawl enghraifft, ond yn hon, cerdd fach o ogledd Sir Gaerfyrddin, mae'r cliw i ystyr *rhody* dwi'n meddwl:

Rhaid yn gyntaf dynnu'r brychau
Cyn i'r gwlan gael mynd trwy'r cribau:
Cribau cyffion mawr at chwalu
Dwy grib lai oedd at y rholi.
At y sidell ar ôl rholi
Llund y wyntell a'u cordeddu.

Cerddi Ysgol Llanycrwys 48: 1934 (Gol. Dan Jenkins)



Dyna ymchwil i ni ynte?: 1) beth oedd natur y cribau o wahanol faintioli (ai defnyddio crib y paniwr, chwith, **fuller's teasel i bob un (tud. 4)?**); 2) Beth oedd pwrpas y sidell (whorl?); 3) beth oedd pwrpas y wyntell (gwyntyll?); 4) cordeddu be tybed?

Mae Ifor Williams wedi dod o hyd i **enw stryd yn Amlwch** yn

dwyn yr union enw.

Llun: Alun Williams??

Cnwd cynnar?



Dyma helpa **siantrelau** un diwrnod gan y Llydawr Dominig Kervegant yn ardal Tregarth, Bangor, 14 Awst 2016. Ydi hwn yn ddyddiad arbennig o gynnar tybed?

Cafwyd gwledd wedyn (eu coginio mewn padell ffrio gyda mymryn o fenyn ac olew, gwasgyn o garlleg, shibwns, pupur a halen. Ardderchog mewn omlot **Ur pred beleg lipous!**



Pwy Bia'r Pig?

Mae siap y pig yn gwbwl ddibynnol ar ei swyddogaeth ac ar fwydlen yr aderyn. Allwch chi adnabod yr adar yma? Mae £10 i'r atebion fwyaf cywir ddaw o'r het.

Dyddiad cau: 1af Hvdref

